

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** 23 Mawrth 2021

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Y Cyng. Richard Mainon / Nicola Kneale, Rheolwr Tîm  
Cynllunio Strategol

**Awdur yr Adroddiad:** Felicity Chandler, Arbenigwr Datblygu Sefydliadol

**Teitl** Polisi Gwirfoddoli

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Y polisi newydd a'r prosesau diwygiedig a dogfennau cysylltiedig er mwyn cael dull cyson ond hyblyg ar gyfer gwirfoddoli ar draws y Cyngor cyfan, gan gynnwys dull newydd i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli o fewn CSDd, a chanllawiau clir ar sut mae rheoli, recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr. Ar ben hyn, egluro sefyllfa rheolwyr a gweithwyr sy'n dymuno cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 I gymeradwyo polisiâu, prosesau a dogfennau newydd yn ffurfiol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y Cabinet yn trafod y polisi a'r broses newydd i reoli gweithgarwch gwirfoddoli o fewn y Cyngor, a chymeradwyo'r gyfres hon o ddogfennau.

3.2. Yn ogystal â hynny, bod y Cabinet yn gwneud sylwadau am y diwygiad sy'n cael ei gynnig i'r polisi Amser o'r Gwaith i weithwyr sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli. Gweler Atodiad 7.

3.3. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Mae'r cyfrifoldeb strategol am wirfoddoli ar hyn o bryd gan y Tîm Cynllunio Strategol, yn rhan o swydd y Swyddog Datblygu Cymunedol.
- 4.2. Mae sawl Gwasanaeth o fewn y Cyngor sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ar hyn o bryd, ac mae gan bob un wahanol angen ac ymagwedd tuag ato. Mae Polisi newydd felly wedi cael ei lunio i ddarparu dull cyson sy'n parhau i gefnogi gwahanol anghenion Gwasanaethau, yn ogystal â chynnig yr arferion gorau i reolwyr a gwirfoddolwyr.
- 4.3. Y nod yw cynnig un safle ar gyfer holl gyfleoedd gwirfoddoli CSDd ar-lein, gan ddefnyddio'r URL byr [www.sirddinbych.gov.uk/gwirfoddoli](http://www.sirddinbych.gov.uk/gwirfoddoli). Bydd hyn yn galluogi hyrwyddo cyfleoedd a chymorth gwirfoddoli yn hawdd.
- 4.4. Yn dilyn y drafodaeth yn y rhwydwaith gwirfoddoli sefydliadol (CSDd), cytunwyd y byddai'r hen system Kinetic yn dod i ben, ac y byddem yn edrych ar ffordd o ddarparu'n fewnol yn ei lle. Dylai pob un o gyfleoedd gwirfoddoli CSDd gael eu hysbysebu trwy adran wirfoddoli ganolog gwefan CSDd. Bydd hyn yn gyfleus i ddefnyddwyr (gan y bydd pwynt canolog iddynt fynd i chwilio am gyfleoedd).
- 4.5. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddwyd tudalen wirfoddoli CSDd ar y we i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli Covid-19 o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae hon yn rhoi blas ar sut fydd/all y dudalen wirfoddoli gyffredinol edrych, ac mae modd adeiladu arni i gynnwys yr holl gyfleoedd gwirfoddoli yn y dyfodol. Gweler Atodiad 2. Bydd y dudalen lanio hefyd yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys y polisi, gwybodaeth diogelu data, llawlyfr gwirfoddolwyr a'r canllaw i reolwyr.
- 4.6. Er mwyn hyrwyddo cyfleoedd, bydd angen cyflwyno ffurflen gais syml i Dîm y We 10 diwrnod gwaith cyn mae angen i'r cyfle gael ei gyhoeddi. Cyfrifoldeb y gwasanaeth darparu fydd cael cyfieithiad.
- 4.7. Mae AD a'r Tîm Cynllunio Strategol wedi cyd-lunio cyfres o ddogfennau sy'n cynnwys: Polisi Gwirfoddoli, Llawlyfr i Wirfoddolwyr, Canllaw i Reolwyr Gwirfoddolwyr, Ffurflen Wybodaeth Gwirfoddoli arferol (sy'n gallu bod yn ffurflen

ar-lein wedi'i hatodi i gyfle gwirfoddoli os yw'n well gan y Gwasanaeth). Gweler Atodiad 3, 4, 5 a 6. Mae angen cymeradwyo'r rhain trwy broses datblygu polisiâu AD. Ar ôl cytuno arnynt, byddant ar gael ar y we (trwy'r dudalen lanio Wirfoddoli allanol) a LINC.

4.8. Bydd y Tîm Cynllunio Strategol ac AD yn trefnu cyfarfodydd chwarterol ar gyfer rhwydwaith gwirfoddoli traws-sefydliadol, i sefydlu'r strategaeth, rhannu arferion da, datrys problemau, ac ati.

4.9. Bydd cyfleoedd gwirfoddoli CSDd yn cael eu hyrwyddo trwy gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol CSDd, LINC, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Gwasanaethau (Tai) a thrwy sefydliadau allanol fel Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwytnwch ein cymunedau oherwydd y manteision lles sy'n dod yn sgil gwirfoddoli, yn ogystal â'r cyfleoedd i weithgareddau gwirfoddoli gael eu datblygu mewn meysydd sy'n ategu ein Blaenoriaethau, darparu gwasanaeth, a'r amgylchedd a threftadaeth leol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Bydd y gwaith yn cael ei reoli trwy adnoddau sy'n bod eisoes. Er gwybodaeth, mae gwiriadau DBS i wirfoddoli'n cael eu gwneud am ddim.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Mae'r Asesiad llawn o Effaith ar Les i'w weld yn Atodiad 1.

7.2. Ar y cyfan, mae'r polisi'n cefnogi cymunedau lleol a lles meddyliol a chorfforol unigolion, ac yn ennyn gwytnwch cymunedol.

7.3. Mae'r polisi'n galluogi gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau ac arferion bywyd a gwaith, sy'n arwain at ganlyniadau lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer gwaith ac incwm.

7.4. Mae gwirfoddoli'n creu cymhelliant ac ymdeimlad o gyflawni. Gall gwirfoddoli ychwanegu at ymdeimlad o reolaeth, lleihau unigrwydd a galluogi pobl i fod yn rhan o fywyd cymunedol ac economaidd, ac effeithio'n gadarnhaol ar les a gwytnwch emosiynol.

7.5. Y rhai sydd fwyaf difreintiedig sy'n debygol o elwa fwyaf o wirfoddoli. Mae'r polisi a'r dogfennau ategol yn nodi hyn yn glir, ac mae'n cefnogi rheolwyr i sicrhau bod y grwpiau hyn yn gallu cymryd rhan mewn gwirfoddoli yn llawn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r broses hon wedi cael ei thrafod rhwng Cynllunio Strategol, AD a'r rhwydwaith gwirfoddoli sefydliadol (CSDd), gyda chyfraniad penodol gan Sir Ddinbych yn Gweithio, Denbighshire Leisure Limited, y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Gwasanaethau Llyfrgell. Mae pob un o'r timau hyn yn defnyddio gwirfoddolwyr yn aml ond mewn gwahanol ffyrdd, felly gobeithiwn y bydd y polisiâu'n addas ar gyfer pob un.

8.2. Mae'r Aelodau Arweiniol (Y Cynghorydd Tony Thomas a'r Cynghorydd Richard Mainon) hefyd wedi cael eu hysbysu, ac mae'r adroddiad hefyd wedi bod trwy Friffio Cabinet. Mae'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghori Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithiwr (nid oedd cworwm yn y cyfarfod) wedi ystyried y polisi ac wedi argymhell ei gymeradwyo. Mae'r broses gymeradwyo a'r amserlen ar gyfer dogfennau'r polisi fel a ganlyn:

Adborth gan Undebau Llafur	27 Ionawr 2021
Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol	5 Chwefror 2021
Sesiwn Friffio'r Cabinet	1 Mawrth 2021
Y Cabinet – cymeradwyaeth derfynol	23 Mawrth 2021

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Fel mae Adran 6 yn ei nodi, nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r prosesau a'r polisiau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae'r polisi a'r dogfennau ategol yn rhoi digon o gyngor ac arweiniad am yr arferion gorau wrth recriwtio gwirfoddolwyr, ymgysylltu â nhw a'u cefnogi ac felly nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi o ddilyn y dull newydd hwn.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Adran s111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

s2 Deddf Llywodraeth Leol 2000